

CYNGOR CYMUNED EGLWYS BACH - COFNODION CYFARFOD 01/02/2016

PRESENOL: Cynghorwyr: Ceri Leeder, Austin Roberts, Katherine Himsworth, Wendy Martin, Richard Newsham, Arthur Williams, John Lloyd Williams, Gwyn M Jones.

1. **CROESO:** Croesawodd y Cadeirydd, Ceri Leeder, bawb i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Gwyn Williams, Dawn Williams.

Darllenwyd llythyr o ymddiswyddiad gan y Cyng. Wendy Martin. Diolchwyd iddi am ei holl waith, bydd colled ar ei hôl. Cytunodd i aros ar y Cyngor hyd nes bydd olynnydd i'r swydd.

Ymunodd y Cyng. Gwyn M Jones a'r cyfarfod.

3. **DATGAN DIDDORDEB:** Dim.

4. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF:** cafwyd cofnodion cyfarfod 04/01/16 yn gywir a fe'u harwyddwyd.

5. **MATERION YN CODI O'R COFNODION:**

Croesffordd Hen Efail - dim datblygiad pellach.

Ci rhydd yn y fynwent - nododd y Cyng. John Lloyd Williams bod y ddwy ffens yn sefyll yn gwbl ar wahân.

Bwrdd 'Tennis Bwrdd tu allan' - nododd y Cyng. Wendy Martin bod y bwrdd wedi cael ei osod a'i bod eisoes wedi prynu batiau a pheli. Mynegwyd pryder bod rhai cwynion wedi cael eu lleisio yn lleol. Nodwyd y dylai unrhyw gwynion gael eu cyfeirio at Glerc y Cyngor.

Pont Ffordd Bryn Hir - cafwyd cadarnhad gan Bennaeth Adran ERF Conwy bod y bont wedi'u harolygu a'i chategoreiddio fel gwaith brys gydag amcangyfrif cost oddeutu £20,000, gyda'r gobaith o gadarnhau cyllid erbyn 10/02/16. Nododd y Cyng. Austin Roberts bod Swyddogion y Sir wedi bod o gymorth mawr gyda'r mater.

Gofynnwyd tybed fyddai modd i drigolion gyfrannu at bont newydd os nad oedd awgrymiadau'r Sir yn dderbyniol? Hefyd, gofynnwyd i gadw mewn cof y posibilrwydd o ofyn i'r Royal Engineers godi pont dros dro os na fydda'i modd cael un gan y Sir yn eithaf buan.

Siop y Llan/Swyddfa Bost - cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus ar 25/01/16 a chafwyd rhai enwau gwirfoddolwyr i sefydlwyd Pwyllgor Llywio i edrych ar y posibiliadau. Cytunwyd i'r Pwyllgor gael golwg ar y posibiliadau yn gyntaf cyn ystyried talu am astudiaeth dichonolrwydd. Cadarnhawyd fod y siop yn parhau i fod ar werth.

Cafwyd llythyr gan y Swyddfa Bost yn nodi mai 'Cau Cangen dros dro' yw hyn a'u bod yn ystyried yr opsiynau i ailsefydlu gwasanaeth i'r gymuned leol.

Cyfrifiadur y Clerc - y Cyng. Austin Roberts i holi'r Sir yn fuan.

Materion ffyrdd - nodwyd fod y canlynol angen sylw:

Ffordd Eglwysbach – y draeniau o Berllan Bach i gerddi Bodnant wedi cael eu glanhau;

Ffordd Tŷ Gwyn – y twll drwg ger Tŷ Gwyn wedi cael ei llenwi;

Ffordd Penrhyd – y tyllau wedi cael eu llenwi a chaiff y gwaith ffosio ei wneud yn y dyfodol agos;

Ffordd Cae Forys – cones wedi eu gosod yn y lleoliad dros dro a bydd gwaith o greu sianeli concrit yn cael ei wneud yn y gwanwyn;

Ffordd Pennant – y gwaith o sgubo'r ffordd wedi ei gwblhau a thyllau drwg wedi eu llenwi.

Bocs cyflenwi 'Band Llydan Cyflym' yn Graig - y mater wedi cael ei gyfeirio at sylw Openreach.

6. **CEISIADAU CYNLLUNIO:**

0/42377 - Cwrt y Porthmyn, Tal y Cafn LL28 5RR - diddymu rhwymedigaeth cynllunio adran 106 sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio cod rhif 0/26357 (codi annedd - cais amlinellol).

The Community Council object in the strongest possible way to the discharge of section 106 . This discharge will lift a restriction which was imposed for the good of the local and the wider community. The applicants clearly understood, on agreeing to it, that there would be far ranging implications for the future of the inhabitation of the building, its eventual re-sale, and any further development on adjacent land.

Also, the landscape and planting work should be enforced according to the original agreement.

Rhybudd o Apêl - Helmydd, Trofarth LL22 8BN - creu mynedfa newydd heb ganiatâd cynllunio.

Cytunwyd i anfon at Arolygaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru i wrthwynebu'r apêl.

Penderfyniadau'r Sir ar Geisiadau Cynllunio: Dim.

7. **MATERION PENODOL I'W PENDERFYNU:**

Cyflog Glanhawraig y Toiledau Cyhoeddus - yn dilyn ymholiadau gyda'r Sir, ac yn unol â'u harweiniad hwy, cytunwyd i beidio â chodi'r cyflog. Y Sir i osod cwpwrdd storio offer yn nhoiledau'r marchod.

Hysbyseb Tendr Torri Gwair 2016-18 - cytunwyd i'r hysbyseb gyda dyddiad cau o 29/02/16.

Costau Claddu - i'w drafod mis nesaf.

Tudalen 'facebook' i'r Cyngor Cymuned - trafodwyd a chytunwyd i greu tudalen ond y dylai gael ei rhedeg yn gwbl annibynnol i'r Cyngor Cymuned.

Cynghorwyr Ifanc - eglurodd y Cyng. Ceri Leeder mai'r gobaith fyddai denu ieuencid rhwng 15-26 oed i fynychu cyfarfodydd am gyfnod o 3 mis. Byddai modd iddynt roi eu barn ar faterion dan arweiniad y Cadeirydd, ond ni fyddai ganddynt bleidlais. Cytunwyd y byddai'n angenrheidiol iddynt fyw yn y gymuned ac i geisio diddordeb drwy'r bwletin/llafar yn gyntaf cyn gofyn i ysgolion uwchradd, colegau, clybiau ffermwyr ieuainc os oes yna rywun gyda diddordeb.

Taliadau - Concrete Sports (bwrdd tennis bwrdd tu allan) - £1,500.00 (talwyd)
Mrs Sue Hayward, Glanhau Toiledau - £98.00
Mrs Einir Jones – cyflog a chostau'r Clerc ar gyfer mis Ionawr - £150.99
Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (Treth ar gyflog mis Ionawr y Clerc) - £31.50
Neuadd Aberconwy - llogi'r ystafell gefn - £33.00

8. **GOHEBIAETH:**

- Ad-daliad Glanhau Toiledau - £1,274.00 [CBSC];
- Etholiadau Lleol - y rhai nesaf i'w cynnal yn Mai 2017. Bydd y Ward yn aros yr un fath tan 2020.
- Taliad Cynllun Chwarae'r Hydref, Menter Iaith Conwy - £72.50.

9. **UNRHYW FATER ARALL:**

Ffens ochr arall i'r siop - wedi gollwng mewn dau le.

Ffens ochr arall i'r ysgol - dim angen i'r Sir osod rhwyd wifren ar y ffens newydd.

Materion ffyrdd - nodwyd fod y canlynol angen sylw:

Ffordd Cae Forys - y ffosydd concriid wedi erydu a rwbel angen ei glirio o Graig i fyny at Toppan Mawr;
Ffordd Pennant - coeden rhwng Croesonen a Wern Bach mewn perygl o syrthio a chodi rhan helaeth o'r ffordd gan ei bod wedi gwreiddio o dan y ffordd.

Hysbysfwrdd y Siop - ar werth am gost o £50 - £100. Cytunwyd i beidio â'i brynu.

10. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:** nos Lun 07/03/2016 am 7:30 o'r gloch.